# POLISI CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL/COLEG



**Cyngor Caerdydd**
Gweithrediadau'r Ddinas
Ystafell 301,
Neuadd y Sir,
Caerdydd
CF10 4UW

# POLISI CLUDIANT O'R CARTREF I'R YSGOL/COLEG

# CYNNWYS


1. **Cefndir Cyfreithiol**
2. **Dewis Ysgol**
3. **Plant Meithrin**
4. **Plant Cynradd**
5. **Plant Uwchradd**
6. **Cyfeiriad Cartref**
7. **Newid Cyfeiriad ym Mlwyddyn 10/11**
8. **Ysgolion Newydd**
9. **Cludiant Ôl-16**
10. **Cyflyrau Meddygol**
11. **Cludiant Anghenion Addysgol Arbennig**
12. **Hyd y Daith**
13. **Llwybrau sydd Ar Gael**
14. **Llwybrau sydd Ddim Ar Gael**
15. **Gwerthu Seddi Dros Ben**
16. **Defnyddio Bysiau Gwasanaeth**
17. **Newid Bysiau**
18. **Treuliau Teithio**
19. **Mesur y llwybr o'r cartref i'r ysgol**
20. **Pasys Bws**
21. **Yr Hawl i dynnu cludiant yn ôl**
22. **Problemau Ymddygiadol**
23. **Bwlio**
24. **Y Broses Gwyno**
25. **Y Broses Apelio**

**ATODIAD 1**

**Y GOFYNION DEDDFWRIAETHOL**

1. **<u>Cefndir Cyfreithiol</u>**

Mae dyletswydd ar Gyngor Caerdydd i ddarparu cludiant yn unol â Mesur Teithio gan Ddysgwyr (Cymru) 2008. Wrth benderfynu a ddylid darparu cludiant am ddim ai peidio, mae gofyn i'r Cyngor ystyried:

- oed y plentyn,
- natur y llwybr,
- cais gan y rhiant i'r plentyn gael ei addysg mewn ysgol ffydd,
- cais gan y rhiant i'r plentyn gael ei addysg drwy gyfrwng y Gymraeg,
- anghenion dysgwyr ag anableddau neu anawsterau dysgu
- anghenion penodol dysgwyr sy'n blant 'sy'n derbyn gofal' gan awdurdod lleol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr a rhaid i'r Cyngor ystyried achos unigol pob disgybl yn ôl ei deilyngdod ei hun, gan roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed. (Gweler '**Y Gofynion Deddfwriaethol'** ar ddiwedd y ddogfen bolisi hon.)

Mae'r dulliau a ddefnyddir gan y Cyngor i gyflawni'r swyddogaeth statudol hon yn cael eu hamlinellu yn y ddogfen bolisi hon.

2. **<u>Dewis Ysgol</u>**

Gall rhieni ddewis ysgol cyfrwng Saesneg, cyfrwng Cymraeg neu ysgol enwadol ar gyfer eu plentyn. Bydd y plentyn yn gymwys ar gyfer cludiant o'r cartref i'r ysgol i'r ysgol ddalgylch briodol o fewn ffin Cyngor Caerdydd cyhyd â bod y cyfeiriad cartref yn fwy na'r pellter cerdded statudol o'r ysgol (2 filltir i ddisgybl ysgol gynradd a 3 milltir i ddisgybl ysgol uwchradd). Fel arfer ni fydd plant rhieni sy'n dewis ysgol y tu hwnt i'r ysgol ddalgylch ar gyfer eu cyfeiriad yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Mae pedair ysgol ddalgylch briodol yn gwasanaethu pob cyfeiriad: Ysgol Gymunedol Cyfrwng Saesneg, Ysgol Gymunedol Cyfrwng Cymraeg, Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir yr Eglwys yng Nghymru ac Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir Gatholig. Os bydd rhieni'n dewis anfon eu plentyn i ysgol heblaw am yr ysgol ddalgylch briodol, yn gyffredinol ni fydd gan y plentyn yr hawl i gael cludiant ysgol am ddim, hyd yn oed os yw'n byw y tu hwnt i'r pellter cerdded statudol.

Os bydd yr ysgol ddalgylch yn llawn a ddim yn gallu derbyn disgybl, darperir cludiant am ddim/pàs bws i'r ysgol briodol agosaf nesaf sydd â lle i dderbyn y plentyn, cyhyd â bod y cartref 2 filltir neu fwy o'r ysgol ar gyfer disgyblion ysgol gynradd, neu 3 milltir neu fwy ar gyfer disgyblion ysgol uwchradd. Mae'r dalgylchoedd yn cael eu hadolygu a'u newid yn barhaus yn sgil galw a newidiadau demograffig. Mae'r ysgol ddalgylch briodol ar gyfer y disgybl yn ddibynnol ar oed y plentyn a'i gyfeiriad cartref adeg y cais.

## 3. Plant Meithrin

Fel arfer nid yw'r Cyngor yn darparu cludiant am ddim i ddisgyblion Meithrin rhan-amser. Darperir cludiant i ddisgyblion a chanddynt ddatganiad o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA) dan amgylchiadau hynod o eithriadol.

## 4. Disgyblion Ysgol Gynradd

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ysgol gynradd sy'n byw 2 filltir neu fwy o'r ysgol ddalgylch briodol, o fesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Mewn amgylchiadau lle mae'r ysgol ddalgylch yn llawn, rhoddir cludiant am ddim i'r ysgol briodol agosaf nesaf sydd â lle ar gael, os yw'r cyfeiriad cartref 2 filltir neu fwy o'r ysgol, o fesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw cludiant yn cael ei ddarparu mewn sefyllfa lle'r oedd yr ysgol ddalgylch briodol ar gael ar ddyddiad y cais am le mewn ysgol (neu ar y dyddiad cau cyhoeddedig yn achos Grŵp Blwyddyn Derbyn) ac, am ba reswm bynnag, y dewisodd y rhiant/ gwarcheidwad beidio â gwneud cais am le/derbyn lle ar y pryd.

Darperir hebryngwyr ar yr holl wasanaethau bws ysgolion cynradd, ond ddim mewn cerbydau tacsi.

## 5. Disgyblion Ysgol Uwchradd

Mae rhwymedigaeth gyfreithiol statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol i ddisgyblion ysgol uwchradd sy'n byw 3 milltir neu fwy o'r ysgol ddalgylch briodol, o fesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael.

Mewn amgylchiadau lle mae'r ysgol ddalgylch yn llawn, rhoddir cludiant am ddim i'r ysgol briodol agosaf nesaf sydd â lle ar gael, os yw'r cyfeiriad

cartref 3 milltir neu fwy o’r ysgol, o fesur y llwybr cerdded byrraf sydd ar gael. Fodd bynnag, nid yw cludiant yn cael ei ddarparu mewn sefyllfa lle’r oedd yr ysgol ddalgylch briodol ar gael ar ddyddiad y cais am le mewn ysgol, ac, am ba reswm bynnag, y dewisodd y rhiant/ gwarcheidwad beidio â gwneud cais am le/derbyn lle ar y pryd.

Ni ddarperir hebryngwyr ar gludiant i ysgolion uwchradd (bysiau mini, bysiau na thacsis).

## 6. Cyfeiriad Cartref

Fel arfer darperir cludiant am ddim i/o unig gyfeiriad parhaol y disgybl.

Pan fydd rhieni/gwarcheidwaid yn rhannu cyfrifoldeb am blentyn a bod y plentyn yn byw’n barhaol mewn mwy nag un cyfeiriad, bydd y Cyngor yn darparu cludiant o’r ddau gyfeiriad cyhyd â bod y ddau ohonynt o fewn dalgylch yr ysgol dan sylw a’u bod wedi’u lleoli ymhellach i ffwrdd na’r pellter cerdded cymwys. Mewn achosion o'r fath, cytunir ar amserlen benodedig, fel arfer bob hanner tymor, lle mae'r cyfeiriad cartref yn cael ei gadarnhau ar gyfer pob diwrnod o'r wythnos. **Bydd gofyn cael tystiolaeth ddogfennol megis gorchymyn llys hefyd i gefnogi defnyddio mwy nag un cyfeiriad.**

Mewn achosion lle mae’r disgybl yn preswylio mewn cyfeiriad dros dro, drwy weithredoedd y tu hwnt i reolaeth rhieni a lle y profir bod y disgybl/rhiant mewn perygl o niwed corfforol ac y bydd y troseddwr yn debygol o gael ei erlyn yn y pen draw, e.e. ddioddefwyr camdriniaeth rywiol neu gam-drin domestig, bydd y cyfeiriad hwn yn cael ei ystyried fel eu cyfeiriad at ddibenion cludiant. **Bydd angen tystiolaeth ddogfennol gan swyddog sy’n delio â'r achos fel swyddog heddlu neu weithiwr cymdeithasol i gefnogi'r defnydd o gyfeiriad dros dro.** Darperir cludiant tra bod y disgybl dan sylw yn preswylio yn y cyfeiriad dros dro, ar yr amod y bodlonir yr amodau cymhwyster cludiant angenrheidiol. Darperir cludiant am gyfnod isafswm o un tymor ac uchafswm cyfnod o flwyddyn academaidd, yn ddibynnol ar y dyddiad y cafodd y cais ei gymeradwyo.

## 7. Newid Cyfeiriad yn ystod Blwyddyn 10/11

Bydd gan ddisgyblion sy’n astudio am eu harholiadau TGAU ym mlwyddyn 10 neu 11 ac sy’n newid cyfeiriad ar ôl cychwyn eu hastudiaethau ym Mlwyddyn 10 yr hawl i gludiant ysgol am ddim (ar ffurf pàs bws fel arfer) os yw’r cyfeiriad newydd dros 3 milltir o bellter cerdded o’u hysgol bresennol. Bydd disgyblion sy'n symud i gyfeiriad yng Nghymru y tu allan i ffin Dinas Caerdydd yn gymwys i dderbyn cludiant gan y

Cyngor dan sylw (yn amodol ar i’r cytundebau presennol rhwng Cynghorau Cymru aros yn eu lle).

Dylid nodi:

- Bod rhaid i’r ysgol bresennol fod yr ysgol ddalgylch briodol ar gyfer y cyfeiriad cartref blaenorol.
- Bydd angen tystiolaeth ddogfennol o’r cyfeiriad newydd.
- Os yw’r cyfeiriad blaenorol y tu allan i ddalgylch yr ysgol bresennol, bydd presenoldeb yn yr ysgol yn cael ei ystyried yn ddewis y rhieni a bydd y rhieni’n gyfrifol am unrhyw gostau cludiant i’r ysgol newydd.

Bydd hanes cyfeiriadau’r disgybl yn cael ei wirio er mwyn sicrhau bod y cyfeiriad cartref blaenorol yn nalgylch yr ysgol bresennol. Os dengys yr hanes cyfeiriadau bod y cyfeiriad y tu allan i’r dalgylch, ni fydd cludiant yn cael ei ddarparu, waeth beth fo’r pellter o’r cyfeiriad newydd i’r ysgol.

## 8. <u>Ysgolion Newydd</u>

Pan fydd ysgol newydd yn agor gyda dalgylch newydd wedi’i ddiffinio ar ei chyfer, ni ddarperir cludiant am ddim i’r plant hynny y mae eu rhieni’n dewis optio am le yn yr ysgol a arferai wasanaethu eu man preswylio. Mae’r ysgol ddalgylch briodol ar gyfer y plentyn yn ddibynnol ar oed y plentyn a’i gyfeiriad cartref adeg y cais.

## 9. <u>Cludiant Ôl-16</u>

Mae’r Cyngor wedi cytuno y bydd yn tynnu’n ôl yn raddol y cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol trwy gyfrwng cynllun Pasbort i Deithio y Cyngor ar gyfer disgyblion/myfyrwyr ôl-16 o flwyddyn academaidd 2016/2017. Bydd yr ariannu’n parhau ar gyfer yr holl ddisgyblion/myfyrwyr sy’n derbyn y Grant Pasbort i Deithio ar hyn o bryd am weddill eu cwrs astudio hyd nes y cyrhaeddant 19 mlwydd oed, ar yr amod eu bod yn dal i fodloni’r amodau cymhwysedd.

## 10. <u>Cyflyrau Meddygol</u>

Nid oes unrhyw ofyniad statudol ar y Cyngor i ddarparu cludiant am resymau meddygol. Yr unig eithriad yw yn achos disgyblion a chanddynt ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Ni ddarperir unrhyw gludiant yn ôl disgresiwn i ddisgyblion am resymau meddygol boed gan y plentyn broblem feddygol dros dro neu broblem feddygol hirdymor. Dylai

disgyblion sydd â chyflwr meddygol sy’n ei gwneud hi’n anodd iddynt fynychu ysgol wneud cais am Addysg yn y Cartref.

## 11. Polisi Cludiant Anghenion Addysgol Arbennig (AAA)

Darperir cludiant am ddim i ddisgyblion sy’n bodloni meini prawf pellter y brif ffrwd ac sydd â datganiad cyfredol o Anghenion Addysgol Arbennig (AAA). Mae gan y polisi cludiant AAA yr un meini prawf pellter â pholisi cludiant y brif ffrwd, ond defnyddir oed gwybyddol y plentyn wrth asesu’r pellter cymwys. Pennir yr ysgol ddalgylch briodol yn ôl y math o angen addysgol arbennig a’r ysgol agosaf sydd ar gael a all gefnogi’r math hwnnw o angen. (Os bydd rhieni’n dewis ysgol heblaw am yr ysgol a enwir gan y Cyngor yn y datganiad drafft o anghenion addysgol arbennig, eu cyfrifoldeb hwy fydd talu unrhyw gostau cludiant fydd yn ddyledus.)

Dim ond dan amgylchiadau hynod o eithriadol y rhoddir cludiant i ddisgyblion sydd â datganiad o Anghenion Addysgol Arbennig nad ydynt yn bodloni meini prawf pellter y brif ffrwd. Ni fyddai amgylchiadau eithriadol yn cynnwys rhesymau cymdeithasol e.e. lle ceir brodyr neu chwiorydd mewn mwy nag un ysgol.

## 12. Hyd y Daith

Lle bo modd, mae’r Cyngor yn glynu at y canllawiau Cludiant a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru. Mae’r rhain yn caniatáu ar gyfer uchafswm hyd taith o 60 munud i ddisgyblion ysgol uwchradd ac uchafswm hyd taith o 45 munud i ddisgyblion ysgol gynradd. Bernir bod cerdded milltir i gyrraedd y bws yn rhesymol.

## 13. Llwybrau sydd Ar Gael

Dros y blynyddoedd mae’r Llysoedd wedi dehongli llwybr fel un sydd “ar gael” os yw plentyn, gyda chwmni os oes angen, yn gallu cerdded ar ei hyd yn rhesymol ddiogel i’r ysgol. Yr unig beth y gall y Cyngor ei ystyried yw materion yn ymwneud â diogelwch ffyrdd, ac nid peryglon cymdeithasol canfyddedig. Cyfrifoldeb y rhiant yw hebrwng y plentyn fel y credant sy’n briodol er mwyn i’r plentyn gyrraedd yr ysgol yn ddiogel.

## 14. Llwybrau sydd Ddim Ar Gael

Mae’r Cyngor wedi barnu bod rhai llwybrau i sawl ysgol yn rhai nad ydynt “ar gael”, drwy bennu eu bod yn llwybrau cerdded “anniogel”. Mae’r dynodiad hwn yn ei gwneud hi’n orfodol i’r Cyngor ddarparu cludiant am ddim o’r cartref i’r ysgol.

## 15. Gwerthu Seddi Dros Ben

Pan fydd seddi gwag ar lwybr sy’n bodoli eisoes, gellir eu gwerthu. Mae ffurflenni cais ar gael ar gais gan y Tîm Cludiant Teithwyr neu oddi ar wefan y Cyngor. Os bydd nifer y ffurflenni cais a dderbynnir yn fwy na nifer y seddi gwag sydd ar gael ar gyfer llwybr penodol, rhoddir blaenoriaeth i’r disgyblion sy’n byw bellaf i ffwrdd o fewn y dalgylch.

Nid oes gwarant y bydd sedd warged yn parhau i fod ar gael. Os bydd nifer y disgyblion sydd â’r hawl i gael cludiant am ddim yn codi mae’n bosibl y bydd yn rhaid disodli disgyblion sydd wedi prynu seddi gwag. Dan yr amgylchiadau hyn mae’n bosibl y bydd hawl gan deuluoedd i gael ad-daliad yn unol â’r meini prawf a osodwyd.

Bydd cost seddi gwag yn cael ei hadolygu’n flynyddol ac mae’n daladwy yn dilyn derbyn anfoneb. Gwerthir seddi ar sail ddwyffordd ac ni ellir eu gwerthu ar gyfer taith unffordd o’r cartref i’r ysgol neu’r ffordd arall. Gall rhieni dalu’n llawn, ar sail fisol neu dymhorol. Rhoddir gwybod i ysgolion ynghylch y costau ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf yn nhymor yr haf cynt.

## 16. Defnydd o Fysiau Gwasanaeth

Y Cyngor sy’n gyfrifol am bennu’r dull o deithio rhwng y cartref a’r ysgol. Am resymau’n ymwneud â chost-effeithiolrwydd, weithiau defnyddir bysiau gwasanaethau bws lleol ar gyfer plant sy’n gymwys ar gyfer cludiant ysgol.

## 17. Newid Bysiau

Mae’n bosibl y disgwylir i ddisgyblion newid cerbydau i gwblhau eu taith i’r/o’r ysgol.

## 18. Treuliau Teithio

Pan fydd disgybl yn gymwys ar gyfer cludiant am ddim, mae’n bosibl y bydd y Cyngor yn cynnig treuliau teithio i rieni sy’n fodlon gyrru eu plentyn i’r ysgol ac oddi yno. Mae’r ffurflen hawlio a’r gyfradd gyfredol fesul milltir ar gyfer ad-dalu treuliau ar gael gan y Tîm Cludiant Teithwyr, ac mae’r gyfradd yn cael ei hadolygu’n flynyddol. Bydd yr ad-daliad yn cael ei gyfrifo ar sail un daith ddwyffordd, gyda’r Cyngor yn gwneud y gwaith mesur. Wedi i’r ffurflen gael ei chwblhau, bydd yn cael ei hardystio gan yr ysgol a’i chyflwyno i’r Tîm Cludiant Teithwyr.

## 19. Mesur y Llwybr o'r Cartref i'r Ysgol

Mesurir y llwybr cerdded o ffin eiddo'r teulu i fynedfa agosaf safle'r ysgol yn unol â'r hyn a bennir gan system fapio GIS y Cyngor. Os ceir anghytundeb ynghylch y pellter a nodwyd, gall rhieni wneud cais i'r llwybr o'r cartref i'r ysgol a ddefnyddir gan y Cyngor gael ei ail-fesur â llaw. Caniateir i rieni gerdded y llwybr gyda swyddog o'r Cyngor a chânt fanylion ysgrifenedig manwl o'r llwybr a gerddwyd a'r pellter a fesurwyd.

## 20. Pasys Bws

Bydd yr holl ddisgyblion sy'n cael cludiant ysgol am ddim yn cael pàs bws ar ffurf cerdyn adnabod o liw penodol â ffotograff er mwyn teithio ar fws sydd dan gontract ysgol, neu ar wasanaeth bws ysgol lle mae angen talu. Yn yr achosion hynny lle nad oes bws ysgol penodol, rhoddir cerdyn iff Bws Caerdydd i'r disgybl.

Gofynnir i ddisgyblion gario'r pàs/cerdyn pryd bynnag y byddant yn teithio. Er mwyn osgoi gorlwytho posibl, rhoddir cyfarwyddyd i'r cwmnïau bysiau a'r gyrwyr bysiau atal unrhyw ddisgybl nad oes ganddo bàs/cerdyn priodol rhag teithio (Dim Pàs Dim Teithio). Bydd swyddogion y Cyngor yn cynnal arolygon monitro yn rheolaidd er mwyn sicrhau mai dim ond disgyblion cymwys a gludir.

Os bydd nifer y ceisiadau a dderbyniwyd yn fwy na nifer y seddi sydd ar gael, rhoddir blaenoriaeth i ddisgyblion ym Mlynyddoedd 7 i 11 cyn ystyried ceisiadau gan ddisgyblion chweched dosbarth. Dyrennir lleoedd ar sail y pellter o gyfeiriad cartref y disgybl i'r ysgol. Rhoddir blaenoriaeth i blant sy'n byw bellaf o'r ysgol. Bydd ceisiadau'n cael eu trin ar sail y cyntaf i'r felin ar gyfer unrhyw seddi sy'n weddill.

Gall disgyblion sy'n colli eu pàs/cerdyn bws gael pàs dros dro gan yr ysgol tra bod un newydd yn cael ei drefnu, am bris isel, gan y Tîm Cludiant Teithwyr.

## 21. Yr Hawl i Dynnu Cludiant yn Ôl

Os canfyddir yn nes ymlaen fod cludiant am ddim wedi'i ddarparu mewn camgymeriad, e.e. pan oedd y gwaith mesur yn anghywir, mae gan y Cyngor yr hawl i dynnu'r cludiant yn ôl, yn amodol ar roi rhybudd rhesymol (fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith o ganfod y camgymeriad).

Pan fydd yr amgylchiadau wedi newid o ran mesuriad y llwybr yn ystod blwyddyn academaidd, e.e. yn dilyn adolygiad o ddarpariaeth cludiant lle

darparwyd llwybrau troed newydd, mae gan y Cyngor yr hawl i dynnu cludiant am ddim yn ôl ar ddiwedd y flwyddyn academaidd dan sylw.

Mewn achosion lle mae pàs wedi'i brynu ar gyfer sedd wag nad yw bellach ar gael (er enghraifft, pan mae angen y sedd ar ddisgybl/myfyriwr sy'n gymwys ar gyfer cludiant am ddim, neu pan ddaw'r contract i ben) bydd y pàs yn dod i ben yn ddi-oed. Mewn achosion o'r fath, gwneir yr ad-daliad priodol.

## 22. Problemau Ymddygiadol

Mae diogelwch yr holl ddisgyblion yn ddibynnol ar safon yr ymddygiad ar gludiant ysgol. Os yw disgybl yn camymddwyn yn gyson ar gludiant ysgol, mae'r Cyngor yn cadw'r hawl i dynnu'r ddarpariaeth gludiant yn ôl. Anfonir llythyrau rhybudd at deuluoedd disgyblion sy'n camymddwyn, yn achosi niwed i'r cerbyd, anaf i deithwyr eraill, neu sy'n ymddwyn mewn modd a allai beryglu diogelwch. Gall yr hawl i deithio ar y bws ysgol gael ei dynnu'n ôl dros dro neu'n barhaol.

Mae'r Cyngor hefyd yn cadw'r hawl naill ai i atal neu ddiddymu cludiant mewn achosion lle mae gyrwyr/hebryngwyr wedi dioddef ymosodiad geiriol neu gorfforol gan rieni/gwarcheidwaid. Mewn achosion o'r fath bydd y contractwyr dan sylw yn cael eu hannog i roi gwybod am weithredoedd o'r fath i'r awdurdodau angenrheidiol.

Mae gan rieni yr hawl i gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas ynghylch pam na ddylai cludiant gael ei dynnu'n ôl dros dro/yn barhaol. Wedi i'r hawl i deithio ar fws ysgol gael ei dynnu'n ôl, y rhieni sy'n gyfrifol am sicrhau bod eu plentyn yn cyrraedd yr ysgol. Cyn i waharddiad dros dro gael ei godi, bydd gofyn cael sicrwydd bod yr ymddygiad wedi gwella.

## 23. Bwlio

Mewn achosion lle mae plentyn yn gorfod symud ysgol oherwydd bwlio, dim ond pan fydd y Gwasanaeth Lles Addysg (EWO) neu Gaerdydd yn Erbyn Bwlio (CAB) wedi chwarae rhan a chynorthwyo â'r symud ysgol y darperir cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol.

Bydd angen i dîm/swyddog EWO neu CAB ddarparu tystiolaeth i gefnogi'r cais am gludiant. Hefyd, bydd rhaid i'r disgyblion fyw ymhellach na'r pellter cerdded cymwys o'u hysgol newydd.

**24. Y Broses Gwyno**

Dim ond cwynion ysgrifenedig gan rieni a dderbynnir gan y Cyngor ynghylch gwasanaethau neu gerbydau yr ymchwilir iddynt. Os bydd cwyn yn cael ei chadarnhau, cymerir camau angenrheidiol a phriodol ar frys gyda'r darparwr gwasanaeth dan sylw, yn unol â'r amodau contract sydd mewn grym ar y pryd.

**25. Y Broses Apelio**

Pan fydd ceisiadau am gymorth ar gyfer cludiant am ddim o'r cartref i'r ysgol yn cael eu gwrthod, mae gan rieni/gwarcheidwaid yr hawl i wneud cais i apelio'n erbyn y penderfyniad. Ceir tri cham apelio.

Cam 1

Yn y lle cyntaf, dylai rhieni nodi'n ysgrifenedig fanylion yr apêl gydag unrhyw dystiolaeth ategol. Bydd y cyfrifoldeb ar y rhieni i gasglu'r holl dystiolaeth berthnasol. Dylid anfon yr apêl hon naill ai drwy lythyr neu e-bost at y Tîm Cludiant Teithwyr. Anfonir cadarnhad bod yr apêl wedi'i derbyn at y rhiant o fewn 5 diwrnod gwaith ac anfonir ymateb ffurfiol at y rhiant o fewn 30 diwrnod ar unrhyw benderfyniad.

Cam 2

Os nad yw'r rhiant/gwarcheidwad yn fodlon â phenderfyniad y Tîm Cludiant Teithwyr, gellir gwneud apêl ysgrifenedig i Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas. Anfonir cadarnhad bod yr ail apêl hon wedi'i derbyn at y rhiant o fewn 5 diwrnod gwaith. Bydd Cyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas yn darparu ymateb ffurfiol o fewn 30 diwrnod gwaith. Bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod ei hun yn erbyn Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol/Coleg y Cyngor.

Cam 3

Pan fydd y cais wedi cael ei wrthod gan Gyfarwyddwr Gweithrediadau'r Ddinas bydd gan y rhiant/gwarcheidwad un dull olaf o apelio.
Rhaid cyflwyno'r apêl yn ysgrifenedig i'r Gwasanaethau Pwyllgorau ac Aelodau. Anfonir cadarnhad bod yr apêl derfynol hon wedi'i derbyn i'r rhieni o fewn 5 diwrnod gwaith a gosodir dyddiad gwrandawiad o fewn 30 diwrnod. Ystyrir yr apêl hon gan Bwyllgor Apeliadau'r Cyngor. Mae'r Pwyllgor yn cynnwys aelodau etholedig, nad oes gan yr un ohonynt gysylltiad â'r Tîm Cludiant Teithwyr. Bydd y Pwyllgor yn ystyried ceisiadau

am gymorth gyda chludiant sydd y tu hwnt i'r polisi arferol ar gyfer darparu cludiant ysgol. Gall y Pwyllgor arfer y disgresiwn sydd ar gael iddo ac mae'r penderfyniad yn derfynol ac yn orfodol i'r apelydd a'r Tîm Cludiant Ysgol. Rhoddir gwybod i rieni am benderfyniad y Pwyllgor o fewn 7 niwrnod i wrandawiad yr apêl. Os gwrthodir yr apêl bydd y rhiant/ gwarcheidwad yn cael ei gynghori nad oes hawl bellach i apelio ar gael.

**ATODIAD 1**

**Y GOFYNION DEDDFWRIAETHOL**

1. Erys y cyfrifoldeb cyfreithiol am sicrhau bod plentyn yn mynychu ysgol gyda rhiant/gwarcheidwad y plentyn. Fodd bynnag, rhoddir dyletswyddau statudol a phwerau yn ôl disgresiwn i'r awdurdod lleol ddarparu cludiant dan Fesur Teithio gan Ddysgwyr Cymru (2008). Mae'r Mesur yn ei gwneud hi'n ofynnol i'r awdurdod lleol benderfynu a oes angen i'r awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer darparu cludiant at ddiben hwyluso presenoldeb personau sy'n derbyn addysg:

   (a) mewn ysgolion neu unedau
   (b) mewn unrhyw sefydliad a gynhelir neu a gynorthwyir gan yr awdurdod lleol sy'n darparu addysg bellach neu addysg uwch (neu'r ddau), neu
   (c) mewn unrhyw sefydliad o fewn y sector addysg bellach.

2. Os ystyrir bod angen cludiant, bydd yr awdurdod lleol wedyn yn ystyried pa fath o gludiant sydd ei angen. Rhaid i'r ddarpariaeth hon fod am ddim.

3. Mae'r Mesur yn rhoi disgresiwn i'r awdurdod lleol dalu'n llawn neu'n rhannol gostau teithio rhesymol unrhyw ddysgwr na wnaed unrhyw drefniadau cludiant am ddim iddo/iddi dan y Mesur.

4. Yr awdurdod lleol sydd i benderfynu beth sy'n angenrheidiol yn achos pob plentyn, ond mae'r Mesur yn darparu rhai o'r ffactorau y dylai'r awdurdod lleol eu hystyried wrth benderfynu a fydd yn gwneud trefniadau ar gyfer darparu cludiant ai peidio. Mae'r rhain yn cynnwys:

   (a) oed y person a natur y llwybr, neu lwybrau amgen, y gellid yn rhesymol ddisgwyl iddo ef/hi eu cymryd;

   (b) unrhyw ddymuniad gan y rhiant i'r plentyn gael addysg neu hyfforddiant mewn ysgol neu sefydliad lle mae'r addysg grefyddol a ddarperir yn cyfateb i'r grefydd neu'r enwad y mae rhiant y plentyn yn ymlynu wrthi/wrtho.

(c) unrhyw ddymuniad gan y rhiant i'r plentyn gael addysg drwy gyfrwng y Gymraeg;

(d) anghenion dysgwyr anabl neu ddysgwyr sydd ag anawsterau dysgu;

(e) unrhyw anghenion penodol gan ddysgwyr sy'n blant 'sy'n derbyn gofal' gan awdurdod lleol.

Nid yw'r rhestr hon yn gynhwysfawr ac nid ei bwriad yw diffinio'r holl amgylchiadau lle gallai fod yn angenrheidiol darparu cludiant, ac nid yw ychwaith yn pennu pa bwysau y mae angen i'r awdurdod lleol ei roi ar unrhyw ffactor penodol. Mater i ddisgresiwn yr awdurdod lleol yw hynny. Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried amgylchiadau penodol pob disgybl yn ôl ei deilyngdod ei hun, gan roi ystyriaeth i unrhyw sylwadau a wnaed. Wrth asesu anghenion teithio dysgwyr, rhaid i awdurdodau lleol ystyried y ffaith na ddylai'r trefniadau teithio a wnânt ar sail yr asesiad achosi lefelau afresymol o straen, cymryd cyfnod afresymol o amser, neu fod yn anniogel.

5. Ystyrir y bydd yn angenrheidiol darparu cludiant pan fydd plentyn rhwng 5 ac 16 oed yn gorfod teithio y tu hwnt i bellter cerdded ac nad yw'r awdurdod lleol yn gallu gwneud trefniadau i'r plentyn ddod yn ddisgybl mewn ysgol yn nes at ei gartref/chartref sy'n cynnig addysg sy'n addas i'w anghenion/hanghenion, gan gynnwys unrhyw anghenion addysgol arbennig a allai fod ganddo/i.

   Mesurir y pellter cerdded ar sail y 'llwybr byrraf sydd ar gael'. Ystyrir bod llwybr 'ar gael' os yw'n ddiogel i blentyn heb anabledd neu anhawster dysgu gerdded y llwybr ar ei ben ei hun neu gyda hebryngwr, os yw oedran y plentyn yn golygu bod angen hebryngwr arno.

   Mae'r Mesur yn diffinio 'pellter cerdded' fel:
   (a) 2 filltir (3.21 cilometr), i blentyn ysgol gynradd a
   (b) 3 milltir (4.82 cilometr) i blentyn ysgol uwchradd.